

# DOLEN Y TAB – 56

21–22 Mai 2021

## \*Oedfa Bore Sul 23 Mai\*

Yng nghwmni Gethin Rhys.

## Oedfaon y Suliau nesaf

### Mai

30 Oedfa fyw ar Zoom, gyda Heulyn a Catrin Rees (manyllion Zoom i ddilyn).

### Mehefin

6 Yng ngofal aelodau Pentyrch.

13 Geraint Rees a'i ffrindiau.

20 Yng ngofal Rhiannon a Gareth Humphreys.

## Hefyd ddydd Sul 23 Mai

### 10.30 Yr Oedfa Ddigidol – Sul y Pentecost

Dathlu'r Pentecost yng nghwmni Gwilym Tudur, gweinidog Seion Aberystwyth a Bethel Tal-y-bont.  
[www.annibynwyr.org](http://www.annibynwyr.org)

### 12:00 Oedfa Radio Cymru

Dathlu'r Pentecost gydag aelodau o Gylch Catholig Aberystwyth.

### 12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

### 19:30 S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Yr wythnos hon rydym yn dathlu'r Sulgwyn. Cawn glywed am bwysigrwydd y Sul yma a mwynhau perfformiad arbennig o 'Y Weddi' gan Celyn Cartwright a Trystan Llŷr Griffiths.

### E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul

[www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

## Cyfundeb Dwyrain Morgannwg

### Adnoddau Newydd i'r Ysgol Sul

Cyflwyniad gan Aled Davies, Cyhoeddiadau'r Gair

Am 7.30 Nos Fawrth 25 Mai

Cwrdd Chwarter rhithiol ar Zoom. Dyma'r ddolen i ymuno:

<https://us02web.zoom.us/j/2310289144?pwd=MThLU0ppRlBta2ZwVUZkRjhSblBVdz09>

Rhif Adnabod: 231 028 9144

Cyfrinair: Cyfundeb

**CROESO I BAWB**



# Peidiwch ag anghofio...

Capel y Tabernacl Cyf.

Cyfarfod Cyffredinol Arbennig  
(CWRDD EGLWYS)

## Y Cynllun Arloesi a Buddsoddi

7.30 Nos Iau, 27 Mai

<https://us02web.zoom.us/j/85063603549?pwd=cVpaT040N0h0MkJmaElyNkZRWmVJQT09>

Rhif Adnabod: 850 6360 3549

Cyfrinair: 448427

## Llythyr o Ddiolch

Yn ddiweddar, derbyniodd John Llewelyn Thomas lythyr oddi wrth Rhydian Wiggins, Rheolwr 'Pobl', yr elusen gofrestredig sydd, ymhlith pethau eraill, yn cynnig cefnogaeth i rai sy'n ddiartref neu mewn perygl o fod yn ddiartref. Ar ran holl breswylwyr a staff eu lloches yn Stryd y Felin, Pontypridd, roedd yn awyddus i fynegi ei




werthfawrogiad o'r holl gyfraniadau a ddaeth trwy law ymdrechion aelodau Capel y Tabernacl, ynghyd â'r gymuned leol hael yn Efail Isaf, a dderbyniwyd dros y misoedd diwethaf. Roedd hefyd am i ni wybod bod ein cyfraniadau – yn ddillad, dillad gwely, nwyddau glanweithdra a dodrefn – 'yn helpu i wella bywydau'r preswylwyr trwy wneud y lloches mor gynnes a chroesawgar â phosib.'

Roeddynt am ddiolch yn bennaf am y dodrefn a gasglwyd ar gyfer y lloches, ac am eu cludo at garreg y drws. Bellach, mae'r eitemau hyn wedi disodli'r hen rai oedd wedi torri. Diolchwyd hefyd i'r eglwys am fynd yr ail filltir trwy wneud apêl am eitemau penodol o ddodrefn oedd eu hangen. Rydym yn hynod ddiolchgar i aelodau'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol am eu hymdrechion arwrol yn trefnu a chydlynu'r cyfan ar ein rhan.

# Dathlu Pedwar Canmlwyddiant

Mae'n briodol ein bod yn nodi pen-blwydd cyhoeddi Salmu Cân Edmwnd Prys am y tro cyntaf yn 1621. Er nad yw ei waith yn gyfarwydd i ni heddiw, fe chwaraeodd ei gyfrol ran amlwg yn nhwf y traddodiad o ganu cynulleidfaol yn ein heglwysi a'n capeli yng



Nghymru dros ran helaeth o'r pedwar can mlynedd diwethaf. Diddorol yw nodi bod y gyfrol yn cynnwys deuddeg o donau, ac mai dyma'r llyfr Cymraeg cyntaf i gynnwys darnau o gerddoriaeth. Dywedir mai ei salmau ef oedd prif gyfrwng canu cynulleidfaol Cymru cyn y Diwygiad Methodistaidd, bron ddwy ganrif yn ddiweddarach.

Fel yr awgryma'r teitl, yr hyn sydd yn y gwaith yw fersiynau mydryddol o'r 150 o salmau a welir yn Llyfr Salmu'r Hen Destament. Ond fel y dangosodd Adrian Morgan yn ei draethawd doethuriaeth meistrolgar, *Astudiaeth o Salmu Cân (1621) Edmwnd Prys*, mae'n bwysig cofio bod mydryddu'r salmau yn un o'r ieithoedd brodorol, yn hytrach nag mewn Lladin, yn un o nodweddion y Diwygiad Protestannaidd o ddyddiau Martin Luther ymlaen. Yn y traethawd, mae Morgan yn dangos bod mydryddu salmau yn hynod o boblogaidd yn Ffrainc ac yn Lloegr yn yr unfed ganrif ar bymtheg, pan aeth degau o feirdd ati i lunio detholiad neu'r cyfan o'r salmau ar ffurf cerddi. Yn wir, roedd dros ddeg o awduron Cymraeg wedi cyfansoddi salmau cân cyn i gyfrol Edmwnd Prys weld golau dydd. Mae'n deg holi felly pam mai enw Prys yn unig rydym yn ei gyplysu'r gyda salmau cân hyd heddiw? Un rheswm am hynny, yn ddiau, yw bod o leiaf 122 o argraffiadau o'i waith wedi eu cyhoeddi rhwng 1621 a 1889.

## Cefndir Edmwnd Prys

Roedd Edmwnd Prys yn frodor o Lanrwst ac yn gyd-fyfyriwr i William Morgan yng Ngholeg Sant Ioan yng Nghaer-grawnt. Dysgodd wyth o ieithoedd, gan gynnwys Hebraeg. Dewisodd ddilyn gyrfa yn yr eglwys, ac erbyn iddo gyrraedd canol ei dridegau roedd wedi ei ddyrchafu'n Archddiacon Meirionnydd. Er iddo gael ei drwytho yn syniadau dyneiddwyr y Dadeni Dysg, roedd hefyd yr un mor wybodus am y traddodiad barddol Cymraeg ac yn feistr corn ar gerdd dafod. Yn wir, honnir fod safon ei ganu caeth cystal, os nad gwell, na gwaith mwyafrif beirdd proffesiynol ei ddydd.

Treuliodd Prys gyfnod ar ddechrau ei yrfa fel rheithor yn Llwydlo, ac mae'n debyg mai yno y sylwodd ar boblogrwydd rhyfeddol salmau cân fel rhan o wasanaethau'r eglwys yn ardal y gororau. O gofio bod mwyafrif helaeth y gynulleidfa'n anlythrennog, roedd canu cynulleidfaol yn ddull effeithiol o drosglwyddo negeseuon y Beibl i'r plwyfolion.

## Ei Gamp

Yn ei ragair i'r gyfrol, mae Prys yn pwysleisio mai ei nod oedd sicrhau bod y caneuon yn ffyddlon i'r ysgrythurau, yn gofiadwy, ac yn addas i'w canu'n gynulleidfaol. Dewisodd eu cyfansoddi yn y mesurau rhydd – yn bennaf yn y mesur a adwaenid yn ddiweddarach fel y mesur salm – yn hytrach na'r mesurau caeth, gan dybio y byddai hynny wedi caethiwo'i allu i gadw'n ffyddlon at yr ysgrythurau a hefyd yn anoddach eu canu. Ar sail ei ysgolheictod ieithyddol, ei wybodaeth eang o deithi'r Gymraeg, a'i ddealltwriaeth gadarn o brydyddiaeth, gofalodd fod ei salmau'n ddealladwy a chanadwy. Ar ben hynny, llwyddodd i ddewis tonau poblogaidd ei oes fyddai'n asio'n dda gyda'r geiriau i hwyluso eu canu gan gynulleidfaoedd. Does ryfedd yn y byd, felly, na welwyd fersiwn mydryddol arall i gystadlu â gwaith Prys hyd at 2008, pan gyhoeddwyd campwaith y diweddar Gwynn ap Gwilym sydd wedi'i seilio ar gyfieithiad Cymraeg 1988 o'r Beibl.

(I unrhyw un sydd am ragor o fanylion, gallwch droi at draethawd doethuriaeth Adrian Morgan ar y we:

[https://pure.aber.ac.uk/portal/cy/theses/astudiaeth-o-salmu-can-1621-edmwnd-prys/6dcebb18-edc9-420f-b958-0a59ad657e13\).html](https://pure.aber.ac.uk/portal/cy/theses/astudiaeth-o-salmu-can-1621-edmwnd-prys/6dcebb18-edc9-420f-b958-0a59ad657e13).html) )

## Cynhadledd Flynyddol Cristnogaeth 21



### 'HALELIWIA AM HERESI'

3.00 p.m. dydd Sul 27 Mehefin  
gyda

### JOHN BELL

awdur, cerddor, pregethwr a darlledwr o gymuned Iona, yr Alban



I gofrestru, eboستيwch:  
cristnogaeth21@gmail.com  
CYN 18 Mehefin

Byddwch yn derbyn manylion sut i dalu,  
a dolu i ymuno ar Zoom

Cyfyngir nifer y dyfeisiau i 100  
Tâl ymuno: £8 y ddyfais

Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205.